



Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Cynllun Parhad Busnes **Egwyddorion Arweiniol**



Cadarnhawyd gan y Bwrdd
Medi 2024

Is-grŵp
Protocolau a Gweithdrefnau

Dyddiad adolygu
Medi 2024

Cynllun Parhad Busnes

Egwyddorion Arweiniol

Cyflwyniad

Mae dysgu o adolygiadau ymarfer, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, wedi dangos bod adegau yn ystod pandemig COVID-19 pan allai diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg fod wedi'i beryglu oherwydd yr effaith ddigynsail ar ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn amlygu pa mor bwysig yw hi i sefydliadau fod â chanllawiau cadarn ar barhad busnes ar waith er mwyn llywio arfer a chynnal safonau darparu gwasanaethau sy'n caniatáu i ddiogelu effeithiol barhau. Cafodd yr angen am hyn ei amlinellu fel argymhelliad yn SEWSCB 4/2022 Adolygiad Ymarfer Plant Stanley [SEWSCB 4/2022 - Adolygiad Cryno o Ymarfer Plant Achos Stanley](#)

Rydyn ni'n cydnabod y bydd gofynion sefydliadau yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar eu rôl a'u cyfrifoldebau ac, felly, mae'r ddogfen hon yn cynnig awgrymiadau ar gyfer egwyddorion arweiniol yn hytrach na safonau rhagnodol.

Pwrpas y Cynllun

Pwrpas y cynllun parhad busnes yw rhoi arweiniad clir i staff sy'n darparu'r gwasanaeth wrth ymdrin ag argyfwng neu ddigwyddiad sy'n effeithio ar ran o'r gweithrediadau o ddydd i ddydd, neu'r gweithrediadau i gyd. Y nod yw sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu nodi a'u cynnal mewn digwyddiad neu sefyllfa sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaeth. Os bydd argyfwng, efallai y bydd angen gwella, lleihau neu atal rhai swyddogaethau, gan ddibynnu ar natur y swyddogaeth a'r argyfwng sy'n digwydd.

Egwyddorion Arweiniol

- Penodi arweinydd parhad busnes a dirprwy/dirprwyon sy'n gyfrifol am gwblhau a gweithredu'r cynllun, fel arfer cynrychiolydd o'r Uwch Dîm Rheoli.
- Manylion am nodau ac amcanion y cynllun.
- Diffinio rôl a chyfrifoldebau'r sefydliad a nodi'r hyn sy'n cael eu hystyried yn 'wasanaethau hanfodol'.
- Nodi beth yw'r dibyniaethau ar adnoddau er mwyn caniatáu ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol (e.e. staff, lleoliadau, offer, technoleg).
- Amlinellu gwasanaethau 'arferol' y gall fod yn bosibl eu gohirio am gyfnod penodol o amser ac ystyried unrhyw effeithiau ar ddiogelu pe bai gwasanaethau'n cael eu gohirio.
- Nodi amhariadau posibl i'r gwasanaeth. Dylai fod asesiad risg i nodi'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd a'r effaith pe bai'n digwydd. Gall fod yn ddefnyddiol blaenoriaethu risgiau posibl gan ddefnyddio system graddio coch, oren neu wyrdd.
- Ystyried yr effeithiau posibl y gallai'r risgiau hyn eu cael ar y sefydliad, p'un a ydyn nhw'n digwydd ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd.
- Nodi rheolaethau ac adnoddau ataliol a lliniaru ychwanegol.

- Datblygu cynlluniau parhad busnes yn seiliedig ar y risgiau/effaith wedi'u nodi ac adnoddau y mae modd eu defnyddio i liniaru'r risgiau hyn a chynnal parhad y gwasanaeth.
- Nodi perchnogaeth a chyfrifoldeb clir am bob gweithred neu ymateb.
- Penderfynu ble i gadw'r cynllun a sut y gall staff ei weld.
- Adolygu a diweddarau'r cynllun yn rheolaidd.
- Nodi a chysylltu'r cynllun â chynlluniau'r awdurdod lleol a'r llywodraeth ar gyfer digwyddiadau mawr, gan gynnwys e-byst, gwefannau, manylion cyswllt a chynlluniau a dogfennau presennol.
- Sicrhau bod y cynllun yn gyson â gofynion statudol a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.
- Dylai unrhyw berthynas â chynlluniau/dogfennau eraill neu gyd-ddibyniaethau ag asiantaethau eraill gael eu nodi'n glir.